

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Chwefror 2il 2016 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Gary Thomas (is gadeirydd), Gwenda Evans, Alwyn Jones, Dewi Pritchard, Alwyn Roberts, Gwenda Morris, Maldwyn Jones, Iolo Evans, Eifion Davies, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eilir Rowlands, Gethin Morris a Tina Davies.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a chafwyd yn gywir.

Datgan Buddiant.

Datganodd Alwyn Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards eu buddiant yn y materion a godwyd yn y llythyr a dderbyniwyd gan Bwyllgor Coffau Canmlwyddiant: Fron-goch, 1916-2016.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Torri coed ym mynwent Llandderfel

Oherwydd y tywydd nid oedd y contractwr wedi gallu torri'r coed ond roedd cynlluniau i gychwyn y gwaith cyn gynted y byddai'r tywydd wedi setlo.

Biniau Halen.

Cafwyd trafodaeth bellach am benderfyniad Cyngor Gwynedd i ddileu'r gwasanaeth cyflenwi biniau halen ar ôl diwedd mis Mawrth 2016. Eglurodd y clerch ei bod wedi derbyn nifer o gwynion am y diffyg halen yn barod gan fod swyddogion Cyngor Gwynedd wedi cyfeirio trigolion lleol i'r Cyngor Cymuned yn hytrach na yw adran briffyrdd eu hunain. Roedd Cyngor Gwynedd wedi ymddiheuro am y camddealltwriaeth ac wedi cadarnhau na ym mis Ebrill y byddai'r drefn newydd yn cychwyn. Amcangyfrif y byddai'r gost o gyflenwi'r holl finiau halen yn yr ardal yn £6,396 y flwyddyn (41 bin ar gost o £156 - y gost a gafwyd gan Gyngor Gwynedd) ac roedd disgwyl i'r Cyngor Cymuned ychwanegu'r swm yma i'w Praesept blynyddol. Cytunwyd yn unfrydol bod hi'n annheg iawn ychwanegu'r holl gost yma i drethi'r trigolion lleol gan eu bod yn cyfrannu tuag at gynnal a chadw'r priffyrdd trwy eu taliadau treth yn barod. Cytunwyd i yrru yn nol at Gyngor Gwynedd i ddatgan gwrthwynebiad cryf y Cyngor Cymuned i'w penderfyniad.

Ymateb i'r cwynion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf:-

Cyngor Cymuned Llandrillo – newid enw annedd i 'River Catcher'.

Derbyniwyd llythyr yn egluro bod y Cyngor Cymuned eisoes wedi cysylltu â'r perchennog ynglŷn â'r mater a chafwyd eglurhad na enw'r cwmni yw 'River Catcher' ac roedd enw gwreiddiol yr annedd ar waelod yr arwydd.

Partneriaeth Penllyn – Llwybr 'Stryd Pont Faen'.

Yn dilyn ymholiadau roedd Cyngor Gwynedd wedi egluro i'r Bartneriaeth nad oeddynt yn gallu ariannu'r gwaith o glirio'r llwybr gan nad oedd yn rhan o'r dyletswyddau yn y cytundeb presennol rhwngddynt. Er hynny, gan mai Ffordd ddi-ddosbarth oedd y llwybr, Uned Cynnal Priffyrdd Cyngor Gwynedd oedd yn gyfrifol am ei chynnal. Cytunwyd i ddiolch i'r Bartneriaeth am eu hymholiadau ag anfon y mater ymlaen i'r Uned Gynnal Priffyrdd yn Nolgellau.

Stad Tan y Foel, Llanfor.

Derbyniwyd e-bost gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd ynglŷn â'r gwyn am un o'r tenantiaid a dderbyniwyd ym mis Tachwedd. Nid oedd y swyddogion gwasanaeth bro yn gallu gwneud mwy heb dystiolaeth. Cytunodd y Cyng. Alwyn Jones basio'r neges ymlaen i drigolion y stad.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol

- i) Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Gwybodaeth am eu ‘Cynllun Gwarchod y Gymdogaeth’.
- ii) Cyngor Cymuned Clynnog Fawr - Derbyniwyd e-bost yn gofyn be oedd barn y Cyngor Cymuned am y newidiadau i'r gwasanaeth biniau halen. Gofynnwyd i'r clerc yrru ymateb yn nol i'r Cyngor.
- iii) Cyngor Gwynedd – Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Rhagfyr.
- iv) Un Llais Cymru - Gwahoddiad i arddwesti Palas Buckingham ym mis Mai 2016.
- v) Llywodraeth Cymru – Derbyniwyd llythyr yn ein cyfeirio at eu ‘Hadolygiad o Ddiogelwch Cefnffyrdd yng Nghymru’ sydd ar gael ar wefan Traffig Cymru.
- vi) Parc Cenedlaethol Cymru – Llythyr yn ein cynghori bod y canllawiau cynllunio ‘Asesu Sensitifrwydd a Capasati y Dirwedd’ ar ffurf drafft ar gael ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus.
- v) Pwyllgor Coffau Canmlwyddiant: Fron-goch, 1916-2016 - derbyniwyd llythyr yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned gyda'r materion canlynol - cael arwyddion newydd i'r pentref a chyfraniad tuag at y gost os byddai angen, cymryd drosodd y cyfrifoldeb (yn 2021) o gynnal a chadw'r byrddau gwybodaeth newydd ac ysgrifennu at Arlywydd yr Iwerddon, Mr Michael D Higgins, i gefnogi cais y Pwyllgor a oedd wedi ei wahodd i fynychu digwyddiadau'r canmlwyddiant ym mis Mehefin. Gofynnwyd i'r clerc anfon at Gyngor Gwynedd ynglyn a'r arwyddion i'r pentref a chytunwyd i drafod cyfraniad ariannol yn y cyfarfod ym mis Mawrth. Cytunwyd mewn egwyddor i gynnal a chadw'r arwyddion a gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr at yr Arlywydd. Gadawodd Alwyn Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards yr ystafell yn ystod y trafodaethau yma.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

NP5/63/271 - Newidiadau i argae presennol yn cynnwys proffil dur wedi'i godi ac amgylch sgrin mewnlfif yr argae. Afon Caletwr, Llandderfel.

C15/1365/04/HT – Hysbysiad o flaen llaw ar gyfer tynnu mast presennol a chodi mast newydd 17.5 o uchder. Fferm Bryn Derw, Glanrafon

C15/1298/04LL – Cais Diwygiedig i drosi adeilad allanol yn uned breswyl ar gyfer llety rheolwr. Pale Hall, Llandderfel.

C16/0061/04/CR – Addasiadau mewnol i 3 ystafell wely. Pale Hall Hotel, Llandderfel.

C15/1232/04/CR – Cais Diwygiedig i drosi adeilad allanol yn uned breswyl ar gyfer llety rheolwr. Pale Hall, Llandderfel.

Cafwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei ganiatáu:-

NP5/63/271 - Newidiadau i argae presennol yn cynnwys proffil dur wedi'i godi ac amgylch sgrin mewnlfif yr argae. Afon Caletwr, Llandderfel.

Materion Ariannol.

a) Derbyniwyd ad-daliad TAW 2015-16

b) Cytunwyd i dalu tal aelodaeth Un Llais Cymru – £146

c) Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i godi'r Praesept ar gyfer 2016-17 i £8,900 (arian ychwanegol ar gyfer cyflewni biniau halen a gwelliannau i ffordd mynwent Llandderfel).

ch) Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Neuadd Sarnau, Ambiwlans Awyr, Dawns i Bawb a Cyngor ar Bopeth. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Unrhyw Fater Arall.

Ffordd mynwent Llandderfel.

Derbyniwyd cwynion am gyflwr y ffordd a chytunodd Maldwyn Jones gymryd golwg a gwneud unrhyw waith angenrheidiol. Cytunwyd hefyd i wneud ymholiadau am y gost o darmacio'r ffordd. Gofynnwyd i'r clerc gael cadarnhad gan berchennog y ffordd ei fod yn hapus i'r Cyngor wneud gwelliannau i'r ffordd.

Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen i sylw Cyngor Gwynedd:-

- i) Gwrych Maes Carafanau Cefnddwysarn - gan nad oedd y gwrych wedi cael ei docio gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â Chyngor Gwynedd i dynnu eu sylw i'r mater.
- ii) Roedd angen tocio canghennau a oedd yn dod drosodd i'r ffordd rhwng Llandderfel a Cefnddwysarn.
- iii) Nid oedd un o oleuadau stryd Stad Tan y Foel, Llanfor yn gweithio.
- iv) Roedd angen clirio'r ffosydd ar ffordd Cwm Main gan fod dŵr yn hel arno. Yn dilyn y gwaith o ail darmacio'r A494 nid oedd y gwter ger Cynlas yn clirio'r dŵr oddi ar y ffordd.
- v) Gan fod y ffordd rhwng Four Crosses, Glanrafon a'r Tollgate, Maerdy yn cael ei defnyddio pan roedd damweiniau ar yr A5 roedd yr holl gerbydau wedi ei difrodi ac roedd angen ei hadnewyddu mewn manau.